**Atodiad D**

**Rheolau cenedlaethol ar gyfer Corff sy'n gwneud cais i gael bod yn Gorff Cyhoeddi Pasbortau nad yw'n cynrychioli brîd penodol (ac felly na fyddai fel arfer yn dod o dan delerau Penderfyniad 92/353/EEC y Comisiwn).**

Rhaid i geisiadau gynnwys manylion –

**Personoliaeth Gyfreithiol.**

1. Dim ond cwmnïau cyfyngedig neu gyhoeddus sydd wedi cofrestru gyda Thy'r Cwmnïau sy'n cael gwneud cais.

**Cyfrifon wedi'u Harchwilio.**

2. I allu cloriannu cyflwr ariannol y cwmni, gofynnir i'r ymgeisydd gyflwyno cyfrifon wedi'u harchwilio ar gyfer y tair blynedd diwethaf.

**Cynllun Busnes.**

3. Dylai ymgeiswyr baratoi cynllun busnes ar gyfer cyfnod o dair blynedd fan leiaf sy'n dangos –

- Natur eu cysylltiad â meysydd eraill o fewn y diwydiant ceffylau.
- Datganiad cenhadaeth.
- Enwau, prif ddyletswyddau a phrofiad perthnasol Cyfarwyddwyr ac Uwch Swyddogion y cwmni.
- Ei farchnad darged ar gyfer pasbortau ceffylau a nifer y pasbortau y mae'n rhagweld eu cyhoeddi ym mhob un o'r tair blynedd.
- Tystiolaeth ei fod yn derbyn ceisiadau am basbortau ar gyfer pob math o geffyl. Os yw'n ymwneud ag un brid neu fath yn unig, dylai wneud cais o dan 92/353/EEC.
- Pris pasbortau ac amcan o'r amser a gymer i'w cyhoeddi.
- Cynllun marchnata a chyhoeddusrwydd ar gyfer yr uchod, gyda ffigurau.
- Y drefn ar gyfer awdurdodi a llofnodi'r silwet yn y pasbort.
- Cynlluniau i ddarparu lefel foddhaol o wasanaeth i berchnogion ceffylau pan fydd y mwyafrif wedi cael pasbort a phan fydd y rhan fwyaf o basbortau newydd ar gyfer ceffylau wedi'u mewnforio ac ebolion.

**Gofyn cyffredinol i weithio'n effeithiol.**

4. Bydd gofyn iddo allu bodloni Llywodraeth y Cynulliad ei fod yn gallu gweithio at yr un safon o effeithiolrwydd â Chyrff Cyhoeddi Pasbortau eraill – yn unol ag Atodiad A.

**Asesu Ceisiadau**

5. Rhaid i ymgeiswyr ddarparu o leiaf y wybodaeth uchod cyn y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn barod i ystyried eu cais. Nid oes rheidrwydd ar Lywodraeth y Cynulliad i dderbyn cais unrhyw gorff sy'n ateb y gofynion uchod. Caiff pob ymgeisydd ei ystyried yn unol â'r amgylchiadau ar y pryd, gan gynnwys a oes angen Corff Cyhoeddi newydd ac unrhyw gyngor ar bolisi y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i gael gan arbenigwyr neu gyrff allanol.

**Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol**
**Llywodraeth Cynulliad Cymru**
**Medi 2005.**